Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Lee Waters AS**

26 Chwefror 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch ichi am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

*Hoffwn wneud cais am y wybodaeth a ganlyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.*

*Pwy sy'n talu am gartref etholaethol Lee Waters, Aelod Cynulliad, yn Llanelli, a beth yw'r gost bob blwyddyn?*

Nid yw Aelodau o'r Senedd (AS) yn cael hawlio costau sy'n gysylltiedig â'u cartref etholaethol (neu ranbarthol). Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r eitemau y mae Aelodau o'r Senedd yn gallu gwneud hawliadau yn eu cylch wedi'u cynnwys mewn **'Penderfyniad'**, ac mae manylion yr holl dreuliau yn cael eu cyhoeddi ar ein **cronfa ddata treuliau**.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire